Safonau gwasanaeth – Cydgyfnewid eiddo

Datganiad o genhadaeth Tai Ceredigion

“Bod yn landlord ac yn gyflogwr dwyieithog o’r radd flaenaf sy’n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy’n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a’r economi leol.”

Beth yw cydgyfnewid eiddo?

Cydgyfnewid eiddo yw proses lle mae dau (neu ragor, weithiau) o denantiaid yn cyfnewid cartrefi, ac nid oes yn rhaid i’r ddau fod yn denantiaid i Tai Ceredigion. DS Ni all tenantiaid sydd â thenantiaeth gychwynnol gyfnewid eu tenantiaeth. Mae gan denantiaid sydd â thenantiaeth sicr hawl i gyfnewid â’r canlynol:

- un o denantiaid eraill Tai Ceredigion
- tenant Cymdeithas Dai arall
- tenant Awdurdod Lleol

Fodd bynnag, er mwyn cyfnewid bydd yn rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan Tai Ceredigion a bydd angen i’r tenant arall/tenantiaid eraill gael caniatâd eu landlord nhw. Gellir atal caniatâd am resymau penodol.

Rhaid i chi wneud y canlynol:

- llenwi’r Ffurflen Gwneud Cais i Gydgyfnewid Eiddo sydd ar gael gan y tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid. Bydd y ffurflen yn galluogi Tai Ceredigion i benderfynu a ddylid caniatáu i’r broses gyfnewid arfaethedig fynd yn ei blaen
- ewch ati i glirio dyledion o safbwynt eich cyfrif rhent (os oes gennych ôl-ddyledion) cyn llenwi eich ffurflen gais a’i hanfon yn ôl at eich Ymgynghorydd Tai Ardal
- cysylltu â Tai Ceredigion neu’r landlord arall cyn i chi symud, os oes gennych ymholiadau ynghylch gwaith sy’n weddill i’w wneud ac ynghylch pwy sy’n gyfrifol am wneud unrhyw waith arfaethedig ar yr eiddo yr ydych yn symud iddo
- cael caniatâd ysgrifenedig cyn dechrau gwneud trefniadau i symud, neu gallech wynebu camau cyfreithiol.

Bydd Tai Ceredigion:

- yn ceisio ymateb i’ch cais cyn pen 28 diwrnod
- yn gwneud ymholiadau ar ôl i’ch ffurflen gais ddod i law, a allai gymryd sawl wythnos
- yn eich ffonio i drafod y broses gyfnewid arfaethedig a rhoi gwybod i chi am eich hawliau a’ch cyfrifoldebau
- yn cynnal archwiliad o’ch eiddo cyn y gallwn ystyried eich cais ymhellach
- yn rhoi llythyr i chi a fydd yn dweud wrthych a ydym wedi penderfynu caniatáu i chi gyfnewid eiddo ai peidio, cyn pen 42 diwrnod ar ôl i ni gael y cais
- yn amlinellu mewn llythyr y rhesymau dros beidio â rhoi caniatâd (os caiff caniatâd ei wrthod) drwy gyfeirio at y rhesymau dan sylw.

Mae copi o’n Polisi Cyfnewid drwy Aseiniad ar gael o ofyn amdano, trwy ffonio 0345 606 7654 neu ebostio post@taiceredigion.cymru

Caiff y Safonau hyn eu hadolygu’n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd

Cymeradwywyd gan y Tenantiaid